# Disgrifiad o'r Swydd

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd** | Cydlynydd Cyrchu Bwyd |
| **Yn adrodd i'r** | Rheolwr |
| **Yn gyfrifol dros** | Swyddog Bwyd Dros Ben ag Amcan, Gwirfoddolwyr perthnasol |
| **Cyflog** | £24,000 - £25,000 y flwyddyn |
| **Cyflogwr** | Food Redistribution Wales Cyf (FareShare Cymru) |

**Amgylchiadau**

- Lleolir y swydd yn FareShare Cymru, Depo Caerdydd, Uned S5, Capital Business Park, Caerdydd, CF3 2PU
- 37.5 awr yr wythnos. Bydd hyn yn golygu gweithio rhai oriau yn ystod gyda'r nosau a phenwythnosau yn unol â gofynion y swydd.
- Mae'r swydd ledled Cymru ac felly bydd angen rhywfaint o deithio ledled Cymru.
- 25 diwrnod o wyliau â thâl yn ogystal â gwyliau banc

**Nodau Allweddol**

O ganlyniad i COVID-19 mae'r galw am wasanaethau FareShare Cymru wedi cynyddu'n ddramatig. Yn Ne Cymru cynyddodd ein haelodaeth yn gyflymach na'r disgwyl ac mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a FareShare y DU gwnaethom ni weithredu ymateb brys yng Ngogledd Cymru y bwriedir iddo ei barhau ar ôl COVID-19. Bydd y rôl newydd hon yn canolbwyntio ar sicrhau ein bod ni'n gallu cynnal gwasanaeth ar y lefel hon.

Un o swyddogaethau allweddol y rôl fydd cydweithio'n agos gyda phartneriaid bwyd presennol, a phartneriaid bwyd posibl, ledled Cymru i sicrhau bod mwy o fwyd dros ben yn cael ei arbed a'i ddosbarthu. Mae'r rôl allweddol hon ar flaen y gad yn yr ymdrech i sicrhau bod mwy o fwyd sydd dros ben yn ein cyrraedd, fel y gellir ei ddosbarthu i elusennau a grwpiau cymunedol. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cydweithio'n agos hefyd â Thîm Bwyd FareShare UK er mwyn sicrhau bod ein partneriaid bwyd rhanbarthol yn derbyn cymorth gweithredol a gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid a bod yr ateb logistaidd cywir yn cael ei roi ar waith gan ddibynnu ar y symiau sydd ar gael.

Mae'r rôl yn draws-adrannol, yn gweithio gyda'r timau Gweithrediadau a Datblygu yn FareShare Cymru yn ogystal â'r Timau Bwyd a Gweithredol yn FareShare UK.

**Cyfrifoldebau'r Swydd**

**Cyd-drafod â chyflenwyr**

- Adnabod partneriaid bwyd newydd, eu perswadio i roi bwyd dros ben ac adnabod gweithwyr allweddol a fydd yn gyrru a gweithredu'r ddarpariaeth bwyd.
- Cryfhau'r cysylltiadau busnes presennol gyda chwmnïau yn y diwydiant bwyd trwy wasanaeth rhagorol i gwsmeriaid a rheolaeth ragorol o'r cysylltiadau.
- Cynhyrchu gwerth i bartneriaid bwyd a sicrhau symiau cynyddol a chynaliadwy o fwyd dros ben ar gyfer gogledd a de Cymru.

- Helpu partneriaid bwyd i ailddosbarthu bwyd dros ben yn y modd mwyaf effeithlon yn amgylcheddol, cymdeithasol ac ariannol.
- Adnabod patrymau lle mae bwydydd dros ben wedi digwydd o'r blaen ac yn debygol o ddigwydd eto a weithio gyda'r partner bwyd i ddatblygu systemau sy'n addas iddynt.
- Gweithredu fel Rheolwr Cyfrifon i bob cyfrannwr bwyd.
- Rhoi adborth ar yr effaith.

**Cymorth gyda Dyrannu Bwyd a Chysylltiadau â'r Diwydiant**
- Rhoi gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid a gweithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf i gysylltiadau yn y diwydiant bwyd trwy ffôn ac e-bost.
- Gweithio gyda'r timau Gweithrediadau i ddyrannu stoc a gynigir gan y diwydiant.
- Cynnal cofnodion prydlon o ddyraniadau, ac o'r hyn a ddysgwyd trwy oresgyn heriau newydd a rhesymau dros gynigion a wrthodwyd.
- Cydgysylltu cynigion bwyd sy'n deillio o Gymru, gweithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf, casglu gwybodaeth allweddol a throsglwyddo i Dîm Bwyd FareShare UK lle mae'r symiau'n rhy fawr i'n logisteg ein hunain.
- Adnabod tueddiadau allweddol categorïau a datblygiadau newydd ledled y rhanbarth.
- Trefnu, rheoli a chydgysylltu trafnidiaeth ar gyfer bwyd.
- Sicrhau bod unrhyw oedi neu broblemau'n cael eu hysbysu ar unwaith i bartneriaid a chydweithwyr.

**Rheoli Prosiectau**
- Gweithredu yn arweinydd prosiect ar gyfer cronfa Bwyd Dros Ben ag Amcan Cymru, a chanddi'r nod o gael gwared ar y rhwystrau sy'n atal rhoi bwyd dros ben.
- Sicrhau bod yr holl adroddiadau'n cael eu cwblhau a'u cyflwyno i'r Rheolwr o fewn terfynau amser.
- Monitro cynnydd yn unol â thargedau a osodwyd ar gyfer y prosiect hwn.
- Trefnu Cyfarfodydd Prosiect fel bo'r angen a chymryd nodiadau
- Datblygu a diweddaru'r gronfa ddata o bartneriaid bwyd a chysylltiadau, gan sicrhau bod rhagolygon newydd yn cael eu cynnwys fel bo'n addas.

**Gwaith Datblygu**
- Gweithio gyda'r Rheolwr a'i helpu i ddatblygu atebion mwy hirdymor ar gyfer ailddosbarthu bwyd dros ben ledled Cymru.
- Cefnogi datblygiad partneriaethau a chysylltiadau i helpu hyn.

**Gwaith Datblygu Arall**
- Cynnal unrhyw ymchwil fel bo'r angen
- Datblygu prosiectau a meysydd gwaith newydd fel bo'r angen
- Cynhyrchu incwm, codi arian a gwaith cyllid fel bo'r angen
- Sicrhau bod pob cofnod yn cael eu cynnal a rhoi adroddiadau fel bo'r angen
- Cyflawni gwaith monitro a gwerthuso fel bo'r angen.

**Marchnata a Chyfathrebu**
- Cymryd cyfrifoldeb am feysydd penodol o farchnata a chyfathrebu
- Cynhyrchu astudiaethau achos o fusnesau bwyd rydym yn gweithio gyda nhw
- Cynrychioli FareShare Cymru fel bo'r angen

**Dyletswyddau Eraill**
- Bod yn barod i gymryd lle unrhyw aelod arall o'r tîm staff yn ystod absenoldeb fel bo'r angen.
- Gwneud unrhyw ddyletswyddau eraill a all fod yn angenrheidiol er mwyn cyflawni'r swydd a/neu swyddogaeth FareShare Cymru

**Manyleb y Person**

| | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| Cymwysterau | • Safon dda o Saesneg a Mathemateg | • Gradd berthnasol neu gymhwyster cyfwerth<br>• Diogelwch Bwyd Lefel 2 neu 3 |
| Profiad a Gwybodaeth | • Profiad o weithio fel rhan o dîm yn cefnogi a chyflawni prosiectau yn unol ag amser, cost a dangosyddion ansawdd y cytunwyd arnynt<br>• Profiad amlwg o gyrraedd targedau recriwtio a chynyddu niferoedd cwsmeriaid / Profiad a brofwyd mewn datblygu busnes ar lefel menter, marchnata B2B neu werthiannau mewnol / Llwyddiant blaenorol mewn datblygu busnes a thyfu sefydliadau<br>• Profiad amlwg o reoli cysylltiadau â chleientiaid<br>• Profiad o farchnata a chyfathrebu<br>• Profiad o adeiladu a datblygu cysylltiadau a phartneriaethau<br>• Profiad o fod yn rheolwr llinell | • Defnydd o gyfryngau cymdeithasol mewn cyd-destun busnes<br>• Trefnu digwyddiadau<br>• Adnabyddiaeth a phrofiad o'r Trydydd Sector yng Nghymru<br>• Profiad o werthu neu reoli cysylltiadau gyda busnesau bwyd a diod. |
| Sgiliau a Medrau | • Hyderus wrth siarad yn gyhoeddus<br>• Trwydded yrru lawn lân a cherbyd sydd ar gael iddynt<br>• Sgiliau trafod a dylanwadu da<br>• Sgiliau cyfathrebu a rhyng-bersonol rhagorol, gallu amlwg i addasu arddull i amrywiaeth helaeth o gynulleidfaoedd<br>• Chwaraewr tîm<br>• Parodrwydd a gallu i ddatblygu sgiliau newydd ac wynebu heriau<br>• Gallu cyrraedd targedau a therfynau amser a gweithio o dan bwysau<br>• Sgiliau marchnata a chyfathrebu<br>• Profiad o roi cyflwyniadau i amrywiaeth o gynulleidfaoedd | • Gallu cynhyrchu eitemau hyrwyddo trawiadol<br>• Defnydd busnes o gyfryngau cymdeithasol<br>• Profiad o drefnu digwyddiadau<br>• Sgiliau yn y Gymraeg |
| Rhinweddau, gwerthoedd ac ymddygiadau personol | • Gradd uchel o symbyliad, ymroddiad a'r gallu i weithredu'n unigol yn ôl yr angen<br>• Rhagweithiol<br>• Gallu i weithio'n hyblyg gan gynnwys gyda'r nosau a phenwythnosau pan fo angen<br>• Parodrwydd a gallu i deithio<br>• Ymrwymiad i ethos y Trydydd Sector a gwaith FareShare Cymru<br>• Dibynadwy, creadigol a chyfrifol | |